
wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

wavehill.com

# Gwerthusiad terfynol Cymru Fyd-eang III

**Tachwedd 2025**



CYMRUFYD-EANG GLOBALWALES

Taith

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Roedd Cymru Fyd-eang III wedi'i gynnal dan arweiniad Prifysgolion Cymru a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy ei chynllun cyfnewid dysgu rhyngwladol, sef Taith. Nod Cymru Fyd-eang III oedd cynnig dull strategol a chydweithredol o hyrwyddo sectorau Addysg Uwch (AU) ac Addysg Bellach (AB) Cymru drwy ystod o weithgarwch cydlynol yn y pedair marchnad â blaenoriaeth.[1] Roedd hyn yn cynnwys gweithgarwch datblygu'r farchnad; gweithgareddau datblygu partneriaethau; ymgyrchoedd hyrwyddo a marchnata drwy'r brand Astudio yng Nghymru; ac ysgoloriaethau wedi'u hariannu. Roedd pedwar amcan i'r cynllun:

- Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dod o farchnadoedd rhyngwladol â blaenoriaeth.
- Cynnal a thyfu partneriaethau mewn marchnadoedd rhyngwladol â blaenoriaeth.
- Cynhyrchu enillion allforio ychwanegol o farchnadoedd â blaenoriaeth.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o brifysgolion a cholegau AB Cymru a'u henw da mewn marchnadoedd â blaenoriaeth.

Adeiladai'r trydydd iteriad hwn ar ddau fersiwn blaenorol o'r cynllun ac ehangwyd y gyllideb a'i maint yn sylweddol. Y gyllideb wreiddiol ar gyfer Cymru Fyd-eang III oedd £10.28m a ddyfarnwyd yn 2022 a'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i'w cyflawni dros gyfnod o bedair blynedd (2022-2026).[2]

Mae'r gwerthusiad terfynol hwn, a wnaed gan Wavehill, yn adolygu'r prosesau a ddefnyddiwyd i gynnal a rheoli'r cynllun, ynghyd â'i effeithiolrwydd. Asesa hefyd gynnydd y cynllun tuag at ei bedwar amcan drwy ddadansoddi cyfraniad. Mae'r adroddiad gwerthuso yn tynnu ar amrywiol ffynonellau tystiolaeth gan gynnwys data am berfformiad y cynllun; cyfweliadau â rhanddeiliaid, sef tîm cynnal y cynllun, aelodau bwrdd Cymru Fyd-eang III, cynrychiolwyr AU ac AB a rhanddeiliaid rhyngwladol; arolwg i dderbynwyr ysgoloriaethau; ac adolygiad o ymchwil a thystiolaeth eilaidd.

## Cyd-destun y gweithredu

Roedd y cyd-destun y cynhaliwyd Cymru Fyd-eang III ynddo yn heriol ac wedi esblygu'n gyson. Mae'n debyg fod ffactorau allanol, megis tynhau ar reolau mewnfudo'r DU a'r gwaharddiad ar ddibynyddion, wedi lleihau cystadleurwydd y DU fel cyrchfan astudio, gan effeithio'n negyddol ar recriwtio myfyrwyr rhyngwladol. Yn ogystal, roedd newidiadau yn gysylltiedig â Brexit wedi cyfyngu ar fynediad myfyrwyr o'r UE i'r un ffioedd dysgu, benthyciadau a grantiau sydd ar gael i fyfyrwyr y DU.

[1] Nodyn: Roedd y pedair marchnad â blaenoriaeth yn cynnwys India (yn benodol talaith Karnataka), Fietnam, Gogledd America ac Ewrop (yn benodol, Llydaw yn Ffrainc a Baden-Württemberg yn yr Almaen).

[2] Nodyn: Yn 2024, cafodd Prifysgolion Cymru gadarnhad gan Lywodraeth Cymru y byddai'r cynllun yn dod i ben flwyddyn yn gynharach na'r disgwyl ym mis Gorffennaf 2025.

Cyfyngodd hyn ymhellach ar recriwtio o farchnadoedd Ewrop. Ar yr un pryd, atgyfnerthwyd pwysigrwydd y cynllun yn sgil y pwysau ariannol ar y sector AU yn y DU a'r ddibyniaeth gynyddol ar incwm myfyrwyr rhyngwladol.

Yn ystod ail flwyddyn cynnal y cynllun, hysbyswyd Prifysgolion Cymru gan Lywodraeth Cymru bod yn rhaid iddynt leihau'r gyllideb. Ym mis Chwefror 2024, derbyniodd Prifysgolion Cymru gadarnhad y byddai'r cynllun yn dod i ben flwyddyn yn gynt nag y cynlluniwyd yn wreiddiol ac y byddai cyllideb y flwyddyn olaf yn lleihau i £1.3m, tua hanner y dyraniad gwreiddiol. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun adolygu ei gynllun gweithredol a'i fodel gweithredu ar gyfer y flwyddyn olaf gan leihau nifer y gweithgareddau ac ailbroffilio cyllidebau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA).

## Adolygu'r cyflawni

### Rhesymeg

**Prif ganfyddiad: Ystyriwyd bod y rhesymeg yn gryf dros gael cynllun addysg ryngwladol sy'n hyrwyddo manteision unigryw Cymru yn rhyngwladol, er y gallai cydlynu trawslywodraethol pellach helpu i wneud y mwyaf o'i effaith.**

Cadarnhaol oedd barn rhanddeiliaid am gryfder y rhesymeg dros Gymru Fyd-eang III. Deilliodd y cynllun o'r angen i hyrwyddo AU ac AB Cymru yn rhyngwladol er mwyn gwella statws y wlad yn fyd-eang, a dywedwyd bod y rhesymeg wreiddiol yn parhau i fod yn ddilys. O ystyried bod y cyd-destun byd-eang yn cyson newid ac amgylchiadau ariannol prifysgolion yn gynyddol heriol, teimlai rhai fod y cynllun hyd yn oed yn fwy dilys nawr nag yr oedd pan gafodd ei lansio gyntaf.

Credid hefyd fod y rhesymeg yn ymestyn y tu hwnt i recriwtio, gan gyfrannu at rym meddal Cymru yn y ddelwedd o wlad agored sy'n barod i ymgysylltu'n fyd-eang ac ystyrid bod hyn yn bwysig, yn enwedig ar ôl Brexit. Cyfeiriodd sawl rhanddeiliad at botensial amcanion Cymru Fyd-eang III i gyfrannu at nifer o feysydd polisi. Nodwyd ganddynt y byddai cryfhau cydgysylltu ac integreiddio'r cynllun ar draws swyddogaethau addysg, masnach a buddsoddi, datblygu economaidd a chysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn helpu i gael y buddion gorau posibl o'r cynllun.

### Dyluniad y cynllun

**Prif ganfyddiad: Cytunai rhanddeiliaid fod amcanion Cymru Fyd-eang III yn briodol ar y cyfan ac yn cyd-fynd â nodau'r cynllun, yn enwedig o ran recriwtio myfyrwyr a meithrin enw da. Fodd bynnag, roedd yn anodd priodoli'n uniongyrchol y cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion i weithgareddau'r cynllun, roeddent yn llai perthnasol i'r sector AB a gallent fod wedi bod yn fwy penodol.**

Ystyriwyd bod amcanion cyffredinol Cymru Fyd-eang III yn berthnasol ac yn briodol, gan gyd-fynd yn dda â'r rhesymeg gyffredinol dros y cynllun. Credid mai cynyddu recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, meithrin partneriaethau a gwella ymwybyddiaeth ac enw da AU ac AB Cymru oedd yr uchelgeisiau cywir ar gyfer y cynllun. Fodd bynnag, tynnodd sawl rhanddeiliad sylw at y cyfyngiadau o ran manylder a'r gallu i fesur yr amcanion yn ogystal â'u bregusrwydd i

ffactorau allanol. Mae'n bosibl y byddai'r dyluniad wedi'i gryfhau o gael amcanion mwy penodol a oedd yn fwy cysylltiedig â chanlyniadau uniongyrchol gweithgarwch Cymru Fyd-eang III.

### Integreiddio Addysg Bellach

**Prif ganfyddiad: Gwnaeth Cymru Fyd-eang III gynnydd da wrth integreiddio'r sector AB, gan ehangu pa mor weladwy ydoedd, sicrhau partneriaethau yn y sector, a'i gael yn rhan o weithgareddau rhyngwladol. Fodd bynnag, credai rhai rhanddeiliaid AB fod y cynllun yn parhau i ganolbwyntio ar AU yn bennaf, ac nad oedd ei amcanion bob amser yn adlewyrchu blaenoriaethau AB yn llawn.**

Cydnabuwyd yn eang mai cam cadarnhaol ymlaen oedd integreiddio'r sector AB yn Cymru Fyd-eang III, yn enwedig o'i gymharu â chyfnodau cynharach y cynllun. Soniodd sawl ymgynghorai am werth y cyfleoedd partneriaeth a oedd ar gael i golegau AB, yn enwedig yng Nghanada. Gwelwyd bod y partneriaethau hyn yn cyd-fynd yn strategol â chryfderau'r sector AB, yn enwedig mewn meysydd fel addysg alwedigaethol, datblygu sgiliau, a dysgu cymhwysol.

Fodd bynnag, dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru y cafodd Addysg Bellach ei chynnwys yn y cynllun ar ôl dau gyfnod blaenorol yn canolbwyntio ar AU. Er bod tîm Cymru Fyd-eang III a rhanddeiliaid AB wedi gwneud ymdrech sylweddol i ymgorffori'r sector yn effeithiol yn y model gweithredu, roedd yr integreiddio hwn, yn ei hanfod, yn ôl-weithredol. O ganlyniad, ni châi rhai o flaenoriaethau AB eu hadlewyrchu'n llawn yn nyluniad gwreiddiol y cynllun, nac yn ei weithredu a'i gynnal.

### Cynnal gweithgareddau'r cynllun

**Prif ganfyddiad: Roedd cynnal gweithgareddau i ddatblygu'r farchnad wedi cynorthwyo i godi proffil rhyngwladol Cymru a chryfhau'r ymgysylltu yn y marchnadoedd â blaenoriaeth, er y gellid gwella cynlluniau yn y dyfodol drwy aliniad cliriach â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a mynegi cynnig unigryw Cymru.**

Roedd gweithgareddau datblygu'r farchnad yn cynnwys digwyddiadau recriwtio, dirprwyaethau, ymgysylltu â chynghorwyr, a mynychu cynadleddau. Ystyrid bod y rhain wedi'u targedu'n strategol a'u gweithredu'n dda, gan helpu i feithrin gwelededd ac agor drysau i sefydliadau Cymru. Roedd Cymru Fyd-eang III wedi darparu drws ffrynt a chyfle i randdeiliaid rhyngwladol gysylltu â sefydliadau Cymru. Roedd y gweithgareddau yn cynnwys cyfarfodydd bord gron, cyfarfodydd llywodraeth ac is-lywodraeth ranbarthol, ac aliniad strategol â swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru. Er bod y llinyn datblygu'r farchnad wedi cael derbyniad da yn gyffredinol, soniodd rhanddeiliaid am yr angen i gael aliniad cliriach rhwng gweithgareddau datblygu'r farchnad a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â masnach, arloesedd a phŵer meddal.

**Prif ganfyddiad: Roedd cyllid sbarduno wedi galluogi sefydliadau AU ac AB i roi prawf ar dreialu cyfleoedd i drosi cysylltiadau ar lefel y system yn gydweithrediadau ar lefel y sefydliad. Er hynny, gall fod cyfle i gynlluniau yn y dyfodol fod yn fwy penodol wrth gyfeirio at ffynonellau cyllid dilynol i gynnal y partneriaethau maes o law.**

Roedd gweithgarwch datblygu partneriaethau wedi'i hwyluso gan raglen grantiau a roddai gyllid sbarduno i sefydliadau Cymru i gefnogi prosiectau cydweithredol gyda sefydliadau yn y marchnadoedd â blaenoriaeth. Canolbwyntiai'r prosiectau hyn ar feysydd fel addysgu a dysgu, ymchwilio, arloesi ac ymgysylltu ar lefel y system. Roedd y llinyn datblygu partneriaethau yn ategu'r gwaith datblygu'r farchnad a chysylltiadau ar lefel y system, gan roi'r modd i sefydliadau drosi'r cysylltiadau hynny yn gydweithrediadau pendant trwy brosiectau. Nododd rhanddeiliaid fod y cyllid sbarduno wedi caniatáu i sefydliadau sefydlu partneriaethau, rhoi prawf ar syniadau, ac ehangu eu presenoldeb yn y marchnadoedd allweddol. Teimlai rhai fod natur tymor byr y cyllid sbarduno wedi cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cydweithio dyfnach a mwy cynaliadwy. Fodd bynnag, roedd yn benderfyniad bwriadol a strategol i Gymru Fyd-eang III ganolbwyntio ar ysgogi partneriaethau yn hytrach na darparu cefnogaeth hirdymor a fyddai wedi golygu mwy o risg ariannol.

**Prif ganfyddiad: Teimlai rhanddeiliaid fod gweithgarwch Astudio yng Nghymru yn elfen bwysig o waith Cymru Fyd-eang III gan helpu i wella gwelededd Cymru yn y marchnadoedd â blaenoriaeth a chefnogi ymdrechion recriwtio.**

Datblygu brand a marchnata Cymru fel cyrchfan oedd ffocws llinyn Astudio yng Nghymru cynllun Cymru Fyd-eang III. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys ymgyrchoedd marchnata digidol, presenoldeb mewn cynadleddau, cynhyrchu asedau marchnata, a chyfathrebu parhaus â rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys cylchlythyrau ar gyfer cynulleidfaoedd domestig a rhyngwladol. Canmolodd rhanddeiliaid y brand Astudio yng Nghymru am ei rôl yn codi proffil Cymru yn rhyngwladol. Fe'i hystyrid yn erfyn gwerthfawr ar gyfer hyrwyddo Cymru fel gwlad, yn hytrach na sefydliadau unigol, gan helpu darparwyr Cymru i sefyll allan o fewn cynnig ehangach y DU.

**Prif ganfyddiad: Ystyriwyd bod rhoi ysgoloriaethau yn werthfawr wrth ddenu myfyrwyr rhyngwladol i Gymru a hyn wedi helpu i greu rhwydwaith o lysgenhadon i hyrwyddo Cymru'n gadarnhaol yn y marchnadoedd â blaenoriaeth.**

Roedd llinyn ysgoloriaethau cynllun Cymru Fyd-eang III yn rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr rhyngwladol o'r marchnadoedd â blaenoriaeth er mwyn iddynt astudio yn sefydliadau AU Cymru. Awgryma'r adborth gan randdeiliaid fod ysgoloriaethau yn llinyn pwysig o'r ddarpariaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth ac enw da AU ac AB Cymru a chefnogi recriwtio myfyrwyr. Awgrymwyd bod ysgoloriaethau wedi helpu i greu rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr i fod yn llysgenhadon anffurfiol dros Gymru yn ogystal â bod yn erfyn marchnata gwerthfawr i ennyn diddordeb yn y marchnadoedd â blaenoriaeth. Cododd rhai rhanddeiliaid gwestiynau ynghylch gwerth am arian yr ysgoloriaethau a roddwyd o ystyried y nifer gymharol fach o fyfyrwyr a elwodd ohonynt a'r amserlen i'r buddion pŵer meddal ddod yn amlwg.

# Effeithiau Cymru Fyd-eang

Roedd yr asesiad ar effaith wedi defnyddio dull dadansoddi cyfraniad i asesu i ba raddau yr oedd y cynllun wedi cyflawni ei bedwar amcan. Yn hytrach na cheisio profi achos ac effaith uniongyrchol, mae dadansoddi i ba raddau y mae wedi cyfrannu yn archwilio'r dystiolaeth sydd ar gael i ddod o hyd i esboniad credadwy o gyfraniad gweithgareddau'r cynllun at y newidiadau a welwyd. Mae'r dull yn cydnabod bod Cymru Fyd-eang III yn gweithredu o fewn amgylchedd cymhleth lle mae nifer o ffactorau allanol yn dylanwadu ar ganlyniadau. Crynhoir lefel yr asesiad a'r prif ganfyddiadau ar gyfer pob amcan yn Nhabl 1 dros y dudalen.[3]

[3] Nodyn: Defnyddiwyd pedair lefel asesu: effaith ddibwys, effaith fach, effaith berthnasol ac effaith fawr. Nid yw'r tabl yn cyflwyno tystiolaeth ar gyfer Amcan 3: Cynyddu enillion allforio gan fod yr amcan hwn yn deillio o Amcan 1 ac yn darparu ychydig iawn o dystiolaeth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i gofnodi yno.

Tabl 1: Trosolwg o effeithiau Cymru Fyd-eang III

| Amcan ac asesiad | Prif ganfyddiadau | Bylchau a chyfyngiadau'r dystiolaeth |
|---|---|---|
| **Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dod o farchnadoedd rhyngwladol â blaenoriaeth.**<br><br>**Effaith berthnasol** | **Data HESA:**<br>• Cynyddodd cofrestriadau rhyngwladol cyffredinol o'r marchnadoedd â blaenoriaeth (35% yn 2023/24 o'i gymharu â 26% yn 2021/22).<br>• Twf cryf ym marchnad India sy'n cyd-fynd â thueddiadau ehangach y DU.<br>• Cynyddodd cofrestru o'r UDA 40% o 2019/20 i 2023/24.<br>• Gostyngodd nifer y myfyrwyr a recriwtiwyd o Ffrainc a'r Almaen.<br><br>**Ymgynghoriadau â rhanddeiliaid:**<br>• Nodwyd bod Astudio yng Nghymru yn werthfawr ar gyfer meithrin gwelededd a chreu diddordeb ar frig y twndis recriwtio.<br><br>**Ffynonellau tystiolaeth ychwanegol:**<br>• Mae arolwg Astudio yng Nghymru yn dangos mwy o adnabod brand a'i ddylanwad wrth wneud penderfyniadau.<br>• Dangosodd data arolwg ymgynghorwyr teithio fod ymgynghorwyr yr Unol Daleithiau wedi dylanwadu ar gannoedd o fyfyrwyr i wneud cais i sefydliadau yng Nghymru.<br>• Data arolwg i ymgynghorwyr teithio. | **Oedi yn nata HESA:**<br>• Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar ddata rhannol gan HESA oherwydd nad yw'r data sydd ar gael yn cwmpasu holl ddarpariaeth Cymru Fyd-eang III yn ei chyfanrwydd.<br><br>**Diffyg olrhain trosi i geisiadau/cofrestru**:<br>• Dim proses ar waith i olrhain na chysylltu gweithgarwch marchnata Astudio yng Nghymru â chanlyniadau pendant fel ceisiadau neu gofrestriadau.<br><br>**Yr holi ar y rhanddeiliaid yn gyfyngedig:**<br>• Yn aml, roedd cyfweliadau â rhanddeiliaid AU yn cynnwys un cynrychiolydd sefydliadol, sy'n golygu y gallai canfyddiadau adlewyrchu barn rannol yn hytrach na safbwynt unedig sefydliad. |

<table>
<tr>
<td>Cynnal a thyfu partneriaethau mewn marchnadoedd rhyngwladol â blaenoriaeth.<br><br><u>Effaith fawr</u></td>
<td>Data DPA y cynllun:<ul><li>Cafodd 111 o bartneriaethau ffurfiol eu brocera neu eu hwyluso, a chynhaliwyd 87 o brosiectau wedi'u hariannu gan y cyllid sbarduno.</li></ul>Ymgynghoriadau â rhanddeiliaid:<ul><li>Disgrifiwyd Cymru Fyd-eang III yn alluogwr allweddol i bartneriaethau rhyngwladol, gan alluogi sefydliadau i adeiladu ar gysylltiadau ar lefel system.</li><li>Ystyriwyd bod gweithgareddau datblygu partneriaethau yn cryfhau hygrededd a gwelededd Cymru yn rhyngwladol gan alluogi partneriaethau i ddatblygu ar lefel sefydliadau.</li></ul>Adroddiadau monitro chwarterol:<ul><li>Mae adroddiadau'n dogfennu ystod eang o weithgarwch partneriaeth yn Fietnam, India, Canada, yr UDA ac Ewrop, gan gynnwys Memoranda Cyd-ddealltwriaeth newydd, prosiectau ymchwil ar y cyd a chytundebau ar lefel system.</li></ul>Arolwg i gynrychiolwyr a derbynyddion cyllid partneriaethau<ul><li>Roedd bron pob un o'r ymatebwyr wedi parhau i gydweithio ar ôl y cyllid cychwynnol, gyda llawer yn cynllunio gwaith pellach a rhai wedi sicrhau adnoddau ychwanegol.</li></ul></td>
<td>Casglu tystiolaeth DPA<ul><li>Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn canolbwyntio ar gyfrif gweithgareddau yn hytrach na chanlyniadau, ac felly cyfyngedig yw'r darlun a geir ar hirhoedledd partneriaethau, eu hansawdd neu eu gwerth strategol.</li><li>Nid yw'r adrodd yn gwahaniaethu'n glir rhwng rôl Cymru Fyd-eang III a rôl gweithredwyr eraill (e.e. British Council, Llywodraeth Cymru), gan olygu bod priodoli yn anodd.</li></ul>Cyfyngiadau'r arolwg<ul><li>Mae'r dystiolaeth o'r arolwg i bartneriaethau a chynrychiolwyr yn ansoddol ac yn hunanadrodd, a'r nifer fach o samplau yn cyfyngu ar gyffredinoli ac ar hyder yn y casgliadau.</li></ul></td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| **Cynyddu ymwybyddiaeth o brifysgolion a cholegau Addysg Bellach Cymru a'u henw da mewn marchnadoedd â blaenoriaeth.**<br><br>**Effaith berthnasol** | **Data DPA y cynllun**<br>• Mae metrigau Astudio yng Nghymru yn darparu tystiolaeth o 1.4 biliwn o argraffiadau; 18.4 miliwn o ymweliadau â'r wefan; 898,407 o weithgarwch ymgysylltu, a fideos wedi'u gweld 244 miliwn o weithiau.<br>• Derbyniwyd dros 3,500 o geisiadau a dyfarnwyd 95 o ysgoloriaethau.<br><br>**Tystiolaeth olrhain brand Astudio yng Nghymru:**<br>• Roedd bod yn gyfarwydd â'r brand wedi codi o 21% (2022) i 44% (2025), ac ymwybyddiaeth o'r brand o 12.5% i 47%, gan ddangos twf cryf.<br>• Cynyddodd yr argraff gadarnhaol o Gymru, yn enwedig yn India, ac roedd y nifer yn ystyried astudio yng Nghymru wedi codi ar ôl gweld hysbysebu Astudio yng Nghymru.<br><br>**Arolwg o dderbynyddion ysgoloriaethau Cymru Fyd-eang:**<br>• Adroddodd derbynyddion brofiadau cadarnhaol iawn o astudio a byw yng Nghymru – gan ei ddisgrifio fel croesawgar, cynhwysol, a chyfoethog yn ddiwylliannol.<br>• Dywedodd llawer eu bod yn annog eraill i astudio yng Nghymru a'u bod yn gweithredu fel llysgenhadon dros Addysg Uwch Cymru.<br><br>**Tystiolaeth o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid:**<br>• Roedd Cymru Fyd-eang III yn codi proffil AU ac AB Cymru drwy ddull cenedlaethol unedig, ac ystyriwyd hyn yn fantais dros genhedloedd cystadleuol.<br>• Nododd rhanddeiliaid enghreifftiau o gryfhau enw da, ond soniwyd ganddynt hefyd fod angen negeseuon cliriach ar gryfderau unigryw Cymru a bod angen presenoldeb cynaliadwy yn y farchnad i barhau i'w chadw'n weladwy. | **Tystiolaeth o newid i enw da**<br>• Mae gwaith olrhain brand ac adborth rhanddeiliaid yn dangos mwy o weledEdd, mae enw da yn anodd ei fesur ac yn cael ei siapio gan lawer o ffactorau allanol, felly dylid ystyried canfyddiadau fel rhai dangosol yn hytrach na rhai pendant.<br><br>**Nifer y rhanddeiliaid**<br>• Mae nifer y partneriaethau rhyngwladol yr ymgynghorwyd â nhw yn golygu bod y canfyddiadau'n adlewyrchu safbwyntiau rhannol yn hytrach na rhoi golwg gynhwysfawr ar enw da Cymru. |

# Argymhellion

1. **Dylid datblygu strategaeth genedlaethol ar addysg ryngwladol er mwyn i weithgareddau'r cynllun alinio ag amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru.** Byddai strategaeth unedig yn sicrhau cydlyniant ar draws adrannau, yn lleihau dyblygu, ac yn cryfhau safle rhyngwladol Cymru drwy fynegi cynnig cenedlaethol clir.

2. **Dylid ymgynghori â rhanddeiliaid AU ac AB i ddiffinio pwrpas strategol, blaenoriaethau a model gweithredu cynlluniau addysg ryngwladol yn y dyfodol.** Bydd ymgynghori yn sicrhau bod cynlluniau yn y dyfodol yn adlewyrchu anghenion a galluoedd gwahanol y ddau sector, yn creu cefnogaeth ac yn sicrhau aliniad rhwng cynllun cenedlaethol a blaenoriaethau'r sefydliadau.

3. **Dylid asesu dichonoldeb a buddioldeb un cynllun ar gyfer AU ac AB ill dau, gan gynnwys ystyried a fyddai modelau gwahaniaethol yn well er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau sy'n benodol i'r sectorau gwahanol.** Canfu'r gwerthusiad fod sefydliadau Addysg Bellach yn aml yn gweithredu gydag amcanion rhyngwladol a mecanweithiau gweithredu penodol, gan awgrymu y gallai fod angen mwy o deilwra ar gyfer fersiynau o raglenni addysg ryngwladol yn y dyfodol.

4. **Dylid parhau i sicrhau bod y broses ar gyfer pennu marchnadoedd â blaenoriaeth yn gydweithredol ac yn gynhwysol, gan gydnabod yr ansicrwydd cynhenid wrth ragweld llwybrau'r farchnad a'r angen am gonsensws ar draws nifer o randdeiliaid.** Byddai proses adolygu strwythuredig a thryloyw sy'n mynd ati'n rheolaidd i sganio'r gorwel ac ymgysylltu â phrifysgolion, y sector AB, a Llywodraeth Cymru yn helpu i sicrhau bod y marchnadoedd a ddewiswyd yn parhau i fod yn gydnaws â blaenoriaethau rhyngwladol Cymru wrth iddynt esblygu ynghyd â meysydd cyfle ar gyfer recriwtio, ymchwil a datblygu partneriaethau.

5. **Dylid cynnal a gwella'r brand Astudio yng Nghymru i fod yn elfen ganolog o ddull Cymru o frandio a hyrwyddo ei chynnig addysg ryngwladol.** Câi'r brand ei werthfawrogi'n eang am godi ymwybyddiaeth ac am gael effaith gadarnhaol ar benderfyniadau myfyrwyr i ystyried Cymru fel cyrchfan astudio. Lle bo modd, dylai cynlluniau yn y dyfodol geisio ymgorffori mecanweithiau mwy cadarn ar gyfer cysylltu gweithgarwch marchnata â chanlyniadau recriwtio.

wavehill.com